CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

583/51

**CYMRAEG – IAITH GYNTAF CY3**
***(FIRST LANGUAGE)***

DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH

*(Arholiad Ysgrifenedig)*

P.M. DYDD LLUN, 21 Mai 2007

(2 Awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **ddau** gwestiwn - Adran A ac Adran B.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Mae angen i chi ysgrifennu Cymraeg da a chywir a chyflwyno'ch atebion yn drefnus.

Awgrymir eich bod yn treulio ¾ awr ar Adran A ac 1¼ awr ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

**1.** Atebwch **bob** rhan o'r cwestiwn hwn. Cewch eich gwobrwyo am greu brawddegau sy'n ieithyddol gywir.

*(a)* Defnyddiwch y canlynol mewn brawddegau gwreiddiol, un ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd: [5 × 2 = 10]

gwelwyd
teimlwn i
a welodd y
ohonynt hwy
fel cath i gythraul

*(b)* Mae **dau** wall ymhob un o'r brawddegau isod. **Lluniwch dair colofn**: yn y gyntaf nodwch y camgymeriad, yn yr ail cywirwch ef, ac yn y drydedd nodwch eich rheswm dros gywiro. [10 × 2 = 20]

(i) Os ydych chi wedi darllen ef, yna rwyt ti'n gwybod pam fy mod yn poeni.

(ii) Fe ddylai hi wedi mynd i'r deintydd.

(iii) Dim ond un linell o farddoniaeth y dysgodd e cyn yr arholiad.

(iv) Ydych chi'n credu mai hi'n gallu canu'n hyfryd pryd mae hi ar ei gorau?

(v) Pe af i heno, yna byddaf i ddim yn gallu dychwelyd tan nos yfory.

*(c)* (i) Cywirwch yr ymadroddion isod. [5]

(ii) Defnyddiwch y ffurfiau cywir mewn brawddegau, un ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd. [5]

yn eisiau mynd
amdan y bachgen
i nhw
sut roedd yn edrych fel
edrych y ffeithiau i fyny

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**2.** Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r canlynol.

*Wrth ateb, cofiwch*
- *ddefnyddio dyfyniadau a thermau beirniadaeth lenyddol;*
- *cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol.*

**Naill ai**

*(a)* Mae ei gydwybod yn poeni Meirion MacIntyre Huws yn y gerdd "Cydwybod". Trafodwch y gerdd a dewiswch **ddwy gerdd arall** lle mae'n amlwg bod cydwybod y beirdd hynny'n eu poeni. Dylech **gymharu'r** cerddi hyn o ran **cynnwys ac arddull**. [80]

**Neu**

*(b)* Trafodwch yr elfennau sy'n **debyg ac yn wahanol** o ran **cynnwys ac arddull** yn y cerddi a astudiwyd gennych o waith Waldo Williams a Ceri Wyn Jones. [80]